

Llanrhidian Higher Community Council
Cyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf



Planning Solutions Consulting
Experts in visitor experiences

Astudiaeth Ddichonolrwydd - Prosiect Graig y Coed



Paratowyd gan

Planning Solutions Consulting Limited

Chwefror 2023



Cleient	Dinas a Sir Abertawe
Teitl	Astudiaeth Ddichonolrwydd: Prosiect Graig y Coed
Fersiwn	Adroddiad Terfynol
Dyddiad	Chwefror 2023
Manylion cyswllt	Planning Solutions Consulting Limited 9 Leigh Road Havant Hampshire PO9 2ES david@pslplan.co.uk

Mae'r holl wybodaeth, gwaith dadansoddi ac argymhellion a wneir ar gyfer cleientiaid gan Planning Solutions Consulting Limited (PSCL) yn cael eu gwneud yn ddidwyll gan gynrychioli barn broffesiynol PSCL ar sail yr wybodaeth a gafwyd gan y cleient ac o fannau eraill yn ystod tymor yr aseiniad. Serch hynny, am fod cyflawni'r argymhellion, rhagolygon a phrasiadau'n dibynnu ar ffactorau y tu hwnt i reolaeth PSCL, ni ddylid tybio fod unrhyw ddatganiad a wneir gan PSCL dan unrhyw amod, yn gynrychioliad, ymrwymiad na gwarant, ac ni all PSCL dderbyn unrhyw gyfrifoldeb pe bai datganiadau o'r fath brofi i fod yn anghywir neu'n seiliedig ar dybiaethau anghywir. Yn enwedig, a heb gyfyngu ar gyffredinedd yr uchod, bwriedir i unrhyw ragolygon, ariannol neu fel arall, a geir yn yr adroddiad hwn fod yn ddarlun i oleuo rhai dadleuon, ac nid ydynt yn gyfystyr â rhagolygon perfformiad gwirioneddol. Nodwch os gwelwch yn dda fod y data demograffig yn cael ei ddarparu gan drydydd parti ac na ellir dal PSCL yn atebol am unrhyw gamgymeriadau yn y data a ddarparwyd. Ni ddylid copïo na dosbarthu'r adroddiad hwn i unrhyw drydydd parti heb dderbyn yn gyntaf ganiatâd ysgrifenedig penodol Planning Solutions Consulting Limited oherwydd natur gyfrinachol a masnachol sensitif rhyw gymaint o'r wybodaeth a gynhwysir yn y ddogfen hon.

Cynnwys

1.0 Cyflwyniad

- 1.1 Briff a strwythur
- 1.2 Graig y Coed
- 1.3 Ffactorau allanol

2.0 Cyd-destun a chysyniad y safle

- 2.1 Adolygu'r safle
- 2.2 Cysyniad y cynnig
- 2.3 Dadansoddiad SWOT cryno o'r safle

3.0 Proffil ardal Penclawdd

- 3.1 Y Gymuned
- 3.2 Beth mae hyn yn ei olygu i Graig y Coed?

4.0 Ymchwil gychwynnol ac ymgynghoriad

- 4.1 Ymgysylltu â rhanddeiliaid
- 4.2 Ymchwil gynradd
- 4.3 Crynodeb

5.0 Opsiynau datblygu a gwerthusiad

- 5.1 Opsiynau craidd
- 5.2 Meini prawf gwerthuso
- 5.3 Matrics sgorio
- 5.4 Sylwadau cryno
- 5.5 Costau cyfalaf dangosol

6.0 Darparu

- 6.1 Y dyfodol
- 6.2 Dadansoddiad ariannol lefel uchel

7.0 Sylwadau clo

Crynodeb Gweithredol

Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo ar gynnig cysyniad dechreuol i ddatblygu Graig y Coed yn goedwig gymunedol dan arweiniad Pwyllgor Gwirfoddol. Byddai creu'r goedwig ar y safle, sydd wedi'i leoli ar gyrion Penclawdd, Abertawe, yn arwain at ddefnydd cymunedol trwy ddarparu adnodd hamdden ac amgylcheddol gwerthfawr. Yn ystod y pedwar mis diwethaf, mae Planning Solutions Consulting Limited wedi bod yn ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol i gynnal astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer y prosiect.

Mae gan y safle dreftadaeth gyfoethog sy'n gysylltiedig â defnyddiau diwydiannol blaenorol, ac mae'n cynnig golygfeydd atyniadol am gryn bellter ar draws y morfeydd heli a'r aber o'r lefel uchaf. Gwasanaethir y safle gan ddau faes parcio ac mae o fewn pellter cerdded i Ben-clawdd a'r ysgol gynradd leol. Gwneir rywfaint o ddefnydd hamdden cymedrol ohono ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae topograffi'r safle yn gymharol serth ac mae wedi tyfu'n wyllt.

Cynhaliwyd modiwl ymchwil sylfaenol, gan ysgogi dros gant o ymatebion. Ymgynghorwyd â thua 20 o randdeiliaid a phartïon â diddordeb. Nododd yr ymchwil a'r ymgynghoriad fod cefnogaeth gadarnhaol i'r cynnig i wella gwerth y safle o ran hamdden, amwynder a'r amgylchedd.

Nododd proses gwerthuso opsiynau dri senario ar gyfer y safle yn y dyfodol:

- Opsiwn Un: Parhau fel y mae (y sefyllfa sylfaenol)
- Opsiwn Dau: Creu goedwig gymunedol, fel y cynigir gan y Pwyllgor Gwirfoddol
- Opsiwn Tri: Lefel fwy dwys o ddatblygu ynghyd ag adeilad a fydd yn hyb canolog

Defnyddiwyd matrices sgorio wedi'i bwysoli a oedd yn cynnwys nifer o feini prawf asesu i werthuso'r opsiynau gwahanol.

Nodwyd mai Opsiwn Dau oedd yr opsiwn a ffefrir, sy'n fwy addas i'r safle o ran ei ffurf a'i raddfa. Bydd yr opsiwn yn cael effaith amgylcheddol gadarnhaol, mae ganddo ffocws cymunedol cryf ac mae'n symlach i'w gyflawni a'i weithredu. Mae'r opsiwn a ffefrir yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Ailsefydlu rhwydwaith ffurfiol o lwybrau
- Cyflwyno deongliadau mewn mannau allweddol ar y safle
- Datblygu mannau eistedd, ardaloedd picnic a golygfannau
- Darparu cyfleuster tebyg i ystafell ddosbarth yn yr awyr agored

Ochr yn ochr â hyn, bydd y goedwig yn cael ei hailblannu a bydd plannu cysylltiedig yn digwydd i wella bioamrywiaeth y safle.

Ar yr adeg y cyflwynwyd yr adroddiad, nodwyd bod y costau cyfalaf dangosol o gwmpas £160,000.

O ran llywodraethu, y teimlad cyffredinol yw y gallai Cyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf, (yn amodol ar drafodaethau pellach), ysgwyddo'r cyfrifoldeb am reoli unrhyw gyllid cyfalaf a refeniw gofynnol i gyflawni'r prosiect, ynghyd â rheolaeth gyffredinol y safle.

Mae rôl amlwg ble gellid cynnwys y gymuned, o ran cynnal a chadw'r goedwig, a allai gael ei arwain gan y Pwyllgor Gwirfoddol, sydd wedi ysgogi'r prosiect. Cydnabyddir mai cyfyngedig yw'r sylfaen o wirfoddolwyr a bod angen denu gwirfoddolwyr newydd. Er mwyn helpu i ddatblygu sylfaen y gwirfoddolwyr, argymhellir bod cydgysylltydd gwirfoddolwyr rhan-amser yn cael ei recriwtio ar contract byrdymor (yn amodol ar y cyllid sydd ar gael).

Byddai'n ofynnol cael contractwr trydydd parti hefyd i gynorthwyo'r gwirfoddolwyr i gyflawni tasgau a gweithgareddau penodol.

Cyfyngedig yw'r cyfleoedd i gynhyrchu refeniw, a bydd angen cymorth refeniw parhaus ar y prosiect. Fel y nodir yn y prif adroddiad, bydd y prosiect yn arwain at ganlyniadau clir i'r gymuned, gan gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Lleihau arwahanrwydd cymdeithasol trwy ddarparu cyfleoedd i wirfoddoli a defnyddio'r safle at ddibenion hamdden anffurfiol a chadwraeth
- Gwellu iechyd a llesiant corfforol, a fydd yn amrywio o ddarparu cyfleoedd i wirfoddoli i weithgareddau hamdden ffurfiol ac anffurfiol (gofal iechyd ataliol)
- Creu man lle y gall bioamrywiaeth ffynnu, a thrwy blannu rhywogaethau o goed brodorol, bydd modd cloi carbon. Bydd y gwaith parhaus o gasglu a monitro data amgylcheddol yn darparu cyfleoedd ar gyfer prosiectau gwyddoniaeth dinasyddion
- Meithrin cydnorthedd cymunedol trwy adfywio coedwig ar gyfer y gymuned ac a reolir gan y gymuned (a fydd yn cynnwys defnydd gan y Sgowntiaid a grwpiau addysg)

1.0 Cyflwyniad

1.1 Y briff a'r strwythur

Mae ymestyn y Cynllun Datblygu Gwledig a'r pecyn ariannu yn rhoi cyfle i fynd i'r afael â rhai o'r materion a'r heriau sy'n wynebu wardiau gwledig gogleddol y Ddinas a'r Sir, yn enwedig ym Phenclawdd, Pontarddulais, Llangyfelach a Mawr.

Dros y pedwar mis diwethaf, mae *the Means* mewn partneriaeth â Planning Solutions Consulting, wedi bod yn cynnal cyfres o astudiaethau dichonoldeb ar ran Partneriaeth Datblygu Gwledig Abertawe i gefnogi adfywio cymunedol cynaliadwy yng ngogledd Gŵyr wledig. Er eu bod yn wahanol o ran canlyniadau gofynnol, cymhwyswyd methodoleg gyffredin ar draws astudiaethau dichonoldeb ar gyfer pob maes. Strwythur yr adroddiwd hwn fel a ganlyn:

- **Adran Dau** – Trosolwg o Graig y Coed. Ystyrir y lleoliad, mynediad a'r goedwig ei hun, ynghyd â pharcio i geir a pherchnogaeth y safle. Amlinellir y cysyniad fel y datblygwyd ef gan y Pwyllgor Gwirfoddol. Dylid cydnabod fod amser ac adnoddau sylweddol wedi cael eu buddsoddi gan y Pwyllgor Gwirfoddol o ran datblygu'r cysyniad am goedwig gymunedol ar gyfer Graig y Coed. Defnyddiwyd dadansoddiad SWOT cryno i amlinellu'r cryfderau, gwendidau, bygthiadadau a chyfleoedd allweddol a gysylltir â'r safle.
- **Adran Tri** – Mae'n bwysig deall nodweddion y ward ble lleolir y prosiect datblygu a chynhaliwyd adolygiad o'r ward. Amlygwyd oblygiadau cryno ar gyfer y prosiect hefyd.
- **Adran Pedwar** – Amlygwyd tystiolaeth o alw drwy gyfrwng arolwg ar lein a gynhyrchodd 104 ymateb, a hybwyd gan Gyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf. Gwnaed gwaith ymgynghori gyda sawl rhanddeiliad allweddol a phatïon â dioddordeb yn ogystal.
- **Adran Pump** – Mae'n amlinellu dau opsiwn datblygu. Senario datblygu cymedrol iawn a seilr ar y cysyniad a ddatblygwyd gan y Pwyllgor Gwirfoddol, ac opsiwn uwch, senario datblygu canolog. Rydym hefyd wedu cynnwys opsiwn o safiad sylfaen – parhau fel y mae.

Darperir disgrifiad byr ar gyfer pob opsiwn, amlygir rhesymeg y prosiect, amlinellir cynulleidfaoedd allweddol, ac amlygwyd y manteision a'r cyfyngiadau cysylltiedig.

Defnyddiwyd matrices sgorio wedi'i bwysoli i werthuso'r opsiynau ac, ar gyfer yr opsiwn a ffefrir, amlygwyd costau cyfalaf dangosol.

- **Adran Chwch** – yn nodi sylwebaeth ar lywodraethu / cyflawni ac ochr yn ochr â hyn paratowyd model ariannol pum mlynedd lefel uchel ar gyfer y prosiect ac amlygwyd yr allbynnau allweddol.
- **Adran Saith** – yn nodi ein sylwadau cryno.

1.2 Graig y Coed

Ffocws yr astudiaeth ddichonoldeb hon ar gyfer **Graig y Coed** yw profi'r cyfle ar gyfer creu coedwig gymunedol, y datblygwyd y cysyniad amdano gan Bwyllgor Gwirfoddol. Bydd y 'pecyn datblygu' ar gyfer Graig y Coed yn helpu i greu coedwig hygyrch ac adnodd hamdden i'r gymuned a bydd yn gwella gwerth bioamrywiaeth y safle'n sylweddol.

Mae ein methodoleg ar gyfer yr astudiaeth ddichonoldeb wedi cynnwys gwneud ymweliadau safle gan ddau aelod o'r tîm, ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol a phartion â diddordeb, a modiwl o ymchwil sylfaenol. Mae hyn law yn llaw ag ymchwil bwrdd gwaith i'r farchnad leol a dadansoddiad yn seiliedig ar ein profiad ymgynghorol o weithio ar brosiectau cefn gwlad ledled y DU.

Rydym hefyd wedi defnyddio profiad gweithredol ein chwaer gwmni o reoli canolfannau ymwelwyr a safleoedd hamdden sy'n ffocysu'n gryf ar yr awyr agored. Yn eu plith mae:

- CONKERS: parc darganfod 120 erw yn y Fforest Genedlaethol (www.visitconkers.com)
- Parc Gwledig a Thraeth Cotswold, cynnig chwaraeon dŵr a pharcdir (<http://www.cotswoldcountryparkandbeach.com/>)
- Kent Life, parc treftdadeth ac atyniad fferm 28 erw (<http://www.kentlife.org.uk/>)

Cafwyd cymorth mawr iawn wrth baratoi'r astudiaeth ddichonoldeb hon gan fewnbwn Jeremy Parkhouse, Clerc Cyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf.

1.3 Ffactorau allanol

Mae'n bwysig cydnabod ymddangosiad pandemig COVID-19 yn ystod 2020. Cofnododd nifer o safleoedd hamdden awyr agored gynnydd sylweddol yn nifer yr ymwelwyr yn ystod 2020 a 2021 ac mewn rhai achosion mae hynny wedi helpu i ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd. Mae angen i ni hefyd gydnabod bod effaith economaidd COVID-19 wedi effeithio ar argaeledd cyllid gan Gynghorau a sefydliadau eraill.

Yn ogystal, mae'r cynnydd diweddar mewn costau byw yn effeithio ar bawb. Gallai cynnydd yng nghostau tanwydd gael yr effaith o leihau nifer ac amlder teithiau hamdden dydd i gyrchfannau nad ydynt yn hawdd eu cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus, llwybrau cerdded neu lwybrau beicio. Yn yr un modd, gall roi mwy o bwysau ar safleoedd sy'n agosach at ble mae pobl yn byw a ble nad oes tâl mynediad na ffi parcio. Gallai'r safleoedd hyn ddod yn fwy poblogaidd.

Bydd costau cynyddol hefyd i reoli a chynnal safleoedd. Yn ogystal, bydd chwyddiant ynghyd â phroblemau cadwyn gyflenwi a llafur yn cynyddu costau datblygu cyfalaf.

2.0 Cyd-destun a chysyniad y safle

2.1 Safle Graig y Coed

2.1.1 Lleoliad a mynediad

Lleolir Graig y Coed rhwng Penclawdd a Crofty, ac mae wrth ochr Caeau Chwarae Graig y Coed ac adeilad y pafiliwn.

Mae mynediad ffordd leol i Graig y Coed ar hyd y B4295 sy'n mynd ar hyd arfordir gogledd Gŵyr gan gysylltu linking Llanrhidian ag Abertawe. Gwasanaethir y safle gan drafnidiaeth gyhoeddus drwy gyfrwng llwybr bws 116 rhwng Abertawe a Llangennydd. Er bod y ffocws ar ddefnydd cymunedol, mae'n bwysig tynnu sylw fod y safle'n hawdd cyrraedd ato o'r M4.

Ym mis Mai 2022, agorodd Ffordd Pererinion Gŵyr. Mae'r llwybr 50 milltir o hyd yn cysylltu 17 eglwys hanesyddol, gan ddechrau ym Mhen-clawdd a gorffen yn Llandeilo Ferwallt. Mae Llwybr Arfordir Cymur hefyd yn pasio heibio i Graig y Coed a cheir rhwydwaith ehangach o lwybrau yn yr ardal gyfagos, gan gynnwys un ar hyd ffin uchaf y safle sy'n cysylltu Penclawdd a Chapel Hermon.



Ffin isaf a mynedfa i Graig y Coed

Mae'r Llwybr Seiclo Cenedlaethol (Llwybr 4) agosaf i'r gogledd yn Nhre-gŵyr. Mae Ysgol Gynradd Penclawdd o fewn pellter cerdded i Graig y Coed.

2.1.2 Graig y Coed

Cysylltir defnydd blaenorol Graig y Coed â diwydiannau cloddio (glo a cherrig), ac yn ddiweddarach defnyddiwyd y safle gan fyddin yr Unol Daleithiau yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Cynhaliodd Coed Cadw gynllun plannu coed tua 15 mlynedd yn ôl sydd wedi arwain at sefydlu gorchudd coed dros rannau o'r safle. Mae prysgdir hefyd yn gorchuddio ardaloedd o fewn y safle. Fel rhan o'r prosiect, cyflwynwyd nifer o lwybrau. Ychydig o waith cynnal a chadw sydd wedi'i wneud ac nid yw'r goedwig yn hawdd cyrraedd ati er bod rhywfaint o ddefnydd wedi'i amlygu. Canfuwyd Canclwm Japan o fewn rhan fach o'r safle.

Mae topograffeg y safle'n gymharol serth mewn mannau ac mae'n codi o tua 14m uwchlaw lefel y môr yn y caeau chwarae i 49m yn y maes parcio uchaf. Mae hyn yn cyflwyno problemau hygrychedd ond gellir creu atebion dylunio i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Fel y gwelir yn y llun isod, gyda'r ffin goch, rhannwyd y safle gan ddarn o dir siâp 'V' sydd ar hyn o bryd y tu allan i'r ardal brydlesol (ni amlygwyd perchennog y tir). Mae llwybr cyhoeddus yn rhedeg ar hyd ffin y goedwig ar ben y safle, gan 'gysylltu'r' safle.¹



Ffynhonnell: Tîm y cleient

¹ Bydd angen cynnal asesiadau cynllunio, ecolegol ac eraill ar y safle fel rhan o unrhyw waith datblygu pellach.

O ben y safle, ceir golygfeydd pellgyrhaeddol deniadol ac mae Capel Hermon drws nesaf yn ychwanegu pwyntiau diddordeb pellach i brofiad y goedwig. Crybwyllwyd hefyd fod modd gweld y machlud ar ei orau ar draws y aber, sy'n boblogaidd gan ffotograffwyr.



Golygfeydd pellgyrhaeddol trawiadol a Chapel Hermon



Machlud trawiadol – llun trwy garedigrwydd y Cynghorydd Sarah Hughes

Y tu hwnt i ffin y safle ceir adeilad pafiliwn sy'n cynnwys toiledau, cyfleusterau newid, cegin fach a garej / gweithdy. Mae'r pafiliwn yn gwasanaethu'r caeau pêl-droed a rygbi.



Adeilad y pafiliwn

Mae gan y safle a'r ardaloedd cyfagos hanes cyfoethog, sydd i raddau'n parhau'n gudd ac anhygyrch. Er enghraifft, mae yno hanes yr hen lofeydd a chwareli, defnydd milwrol a gysylltir â'r Ail Ryfel Byd a Chaer Oes Haeearn gerllaw (Pen-y-Gaer). Bydd hyn yn cael ei wneud yn weladwy drwy ddefnyddio paneli dehongli a theithiau cerdded tywys.

2.1.3 Darpariaeth parcio ceir presennol

Gwasanaethir y safle gan ddau faes parcio: maes parcio ag arwyneb ger Caeau Chwarae'r West End (gwaelod y safle) – sydd y tu allan i ffin y llinell goch, a maes parcio llai heb arwyneb ger Capel Hermon (pen y safle). Deallir bod rhai achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael eu cofnodi yn y maes parcio lefel uwch.



Maes parcio is ger y caeau pêl-droed a rygbi a maes parcio uwch heb arwyneb.

2.1.4 Perchnogaeth

Mae Graig y Coed yn eiddo i Gyngor Dinas a Sir Abertawe. Ymrwymwyd i brydles ar gyfer y tir (y cyfeirir ato fel Gwarchodfa Natur Graig y Coed), ar delerau rhent hedyn pupur am gyfnod o 125 mlynedd, rhwng Cyngor Dinas a Sir Abertawe a Chyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf ym mis Mai 2020.

2.1.5 Ystyriaethau eraill

Er bod buddsoddiad wedi'i sicrhau i ddatblygu adeilad y pafiliwn, y MUGA a'r parc sglefrio, cydnabyddir bod diffyg coedwig gymunedol awyr agored, sy'n hygyrch i bobl o bob oed, yn y ward.

Ar nodyn arall, mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod yr Adran Drafnidiaeth yn cynhyrchu cyfrifon trafnidiaeth blyneddol (yn seiliedig naill ai ar gyfrif â llaw neu amcangyfrif) ar draws rhwydwaith ffyrdd y DU. Y man cyfrif agosaf at y safle, ar hyd yr A4295, yw Crofty. Mae'r cyfrif â llaw o 2019 yn dangos llif cerbydau dyddiol cyfartalog o 4,161 o gerbydau – ychydig dros 1.5m o symudiadau cerbydau bob blwyddyn.

2.2 Cysyniad y cynnig

Datblygwyd y cysyniad ar gyfer coedwig gymunedol yng Nghraig y Coed gan Bwyllgor Gwirfoddol. Cydnabyddir bod y Pwyllgor Gwirfoddol wedi buddsoddi cryn dipyn o amser i ddatblygu'r cysyniad a'u bod hefyd wedi cynnal ymgynghoriad cymunedol gyda thrigolion lleol ac ysgolion (a ddangosodd gefnogaeth gref i'r prosiect). Yn ogystal, sicrhodd yr ymgynghoriad cynharach ymrwymiad gan 30 o bobl i wirfoddoli i gynorthwyo gyda'r prosiect, gan gynnwys gwirfoddolwyr â sgiliau arbenigol mewn ecoleg a'r defnydd o offer trwm. Cydnabyddir bod angen gwella gallu'r Pwyllgor Gwirfoddol presennol.

Gweler y braslun o'r cynllun cysyniadol isod.



Ffynhonnell: Pwyllgor y Prosiect

Mae'r cynnig yn canolbwyntio ar gyflwyno isadeiledd hamdden anymyrol, ond o safon uchel, i beri fod y goedwig yn adnodd mwy hygrych i aelodau'r gymuned leol, gan ddarparu llecyn addysgu awyr agored ar gyfer ysgol Gynradd Penclawdd, a leolir o fewn pellter cerdded i Graig y Coed.

Mae cynigion ar gyfer yr isadeiledd i ymwelwyr yn cynnwys cyflwyno:

- Hysbysfyrddau croeso mewn tri phwynt mynediad allweddol
- Paneli dehongli dwyieithog
- Seddi
- Mannau picnic
- Pwynt(iau) gwyllo
- Ardal ddosbarth awyr agored
- Ceir rhwydwaith bresennol o lwybrau sydd wedi gordyfu ar hyn o bryd ac na ellir eu defnyddio, ac fel rhan o'r prosiect cyflwynir 1km o lwybrau graean a 200m o lwybr tarmac.
- O ran y daliad tir, yr uchelgais yw sefydlu planhigfa goed ar ddwy ran o dair o'r tir a dôl flodau gwyllt ar y traean arall.

Law yn llaw â buddsoddi yn y seilwaith ffisegol, yr uchelgais hefyd fyddai gwella bio-amrywiaeth y goedwig ei hun a chofnodi bywyd gwyllt sy'n bresennol ar y safle. Yn amlwg, mae hyn yn cyflwyno sawl cyfle neu faes pwnc ar gyfer ymweliadau addysgol a dehongli, fel gwella cynefinoedd (gwenyn, pryfed,) hyd at newid hinsawdd (dal carbon) ac ati.

2.3 Crynodeb Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT) y safle

Isod dyma amlinellu dadansoddiad SWOT sy'n tynnu sylw at gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau allweddol a gysylltir â'r safle.

Cryfderau	Gwendidau
• Ymgysylltiad cymunedol wedi'i gynnal cyn hyn wedi dangos cefnogaeth i'r prosiect • Cynnig datblygu presennol yn ei le • Ysgol gynradd a grŵp Sgowtiaid gerllaw (o fewn pellter cerdded) • Bywyd gwyllt / cynefinoedd presennol yn darparu pwyntiau ychwanegol o ddiddordeb • Rhyw gymaint o isadeiledd (meysydd parcio) a llwybrau presennol (er nad yw'r llwybrau'n hawdd eu cyrraedd) • Golygfeydd pellgyrhaeddol deniadol • Presenoldeb adeilad y pafiliwn • Llwybrau cerdded oddi ar y safle gerllaw • Prydles hir wedi'i sicrhau (hanfodol o safbwynt ariannu) • Unwaith y byddant wedi'u sefydlu, costau cynnal a chadw isel parhaus (yn amodol ar gyfraniad parhaus y gwirfoddolwyr) • Rhyw gymaint o ddefnydd presennol (yn dangos fod galw) • Mae'r safle'n hygyrch ar drafnidiaeth gyhoeddus	• Safle datblygu heriol – topograffeg serth y safle'n ei gwneud hi'n anodd rhoi 'mynediad' i rai defnyddwyr (er y gellid goresgyn hyn gyda dyluniad y llwybr) • Cyflwr y goedwig (diffyg cynnal a chadw) • Maint cymharol fach y safle cyfan • Mae'r mynediad i'r maes parcio uchaf yn wael (ar hyd heol un trac serth, gul) • Rhai achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi'u cofnodi
Cyfleoedd	Bygythiadau
• Prinder mannau gwyrdd / hamdden ffurfiol i deuluoedd a phobl eraill sy'n byw yn Crofty, Penclawdd, Llanmorlais a Wernffrwd (er bod mynediad i Benrhyn Gŵyr yn ehangach). Dyma gyfle i ddatblygu adnodd cymunedol sy'n hygyrch i ystod eang o ddefnyddwyr. • Cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r agenda iechyd a lles • Gwell bioamrywiaeth – bydd cynefinoedd newydd yn creu pwyntiau o ddiddordeb o ran denu bywyd gwyllt newydd i'r goedwig • Defnydd grŵp ac addysg yn gysylltiedig â'r ysgol gynradd a'r Sgowtiaid • Rôl cydlynedd gwirfoddolwyr (ar gytundeb tymor byr) i helpu i ddatblygu'r sylfaen gwirfoddolwyr	• Ymlediad Canclwm Japan • Capasiti cyfyngedig y safle i ehangu os caiff ei ddefnyddio'n helaeth (ac eithrio caffael y llain o dir coll) • Unrhyw amwybodaeth am gyflwr y tir yn gysylltiedig â defnydd blaenorol y safle • Capasiti cyfredol gwirfoddolwyr • Fandaliaeth / ymddygiad gwrthgymdeithasol posibl

- | | |
|---|--|
| <ul style="list-style-type: none"> • Darparu cyfleoedd 'hyfforddiant' newydd i bêl-droedwyr / chwaraewyr rygbi (rhedeg ar y llwybrau) • Cyfleoedd sy'n gysylltiedig â datgelu treftadaeth gyfoethog (adeiledig a naturiol) trwy ddehongli • Sicrhau darn o dir 'coll' • Byddai defnyddio arwyddion oddi ar y safle gan gynnwys baneri ar hyd blaen y meysydd pêl-droed a rygbi (yn amodol ar drafodaeth) yn gyfle pwysig i godi ymwybyddiaeth o'r prosiect ymhlith trigolion lleol ac eraill. | |
|---|--|

3.0 Proffil ardal Penclawdd

3.1 Y gymuned

Mae poblogaeth gyffredinol y ward ychydig yn llai na 3,600 o drigolion (3,569), sef y 12fed poblogaeth ward isaf yn Abertawe. Ar lefel sirol, rhagwelir y bydd poblogaeth Sir a Dinas Abertawe'n cynyddu o 249,275 o drigolion yn 2022 i 264,213 erbyn 2042. ²

Amlinellir proffil ardal cryno ar gyfer ward 3 Penclawdd isod:

- Poblogaeth: 3,600 (ffynhonnell: amcangyfrifon canol 2020, wedi'u talgrynnu – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol / ONS)
- Wardiau Cyfagos: Tregŵyr, Fairwood, Gŵyr
- Arwynebedd: 1,412 hectar / 14.12 km² (ONS, 2020)
- Dwysedd Poblogaeth (2020): 253 o bobl fesul km²
- Newid yn y Boblogaeth (2015 i 2020): 0 / +1% (amcangyfrifon y Swyddfa Ystadegau Gwladol, wedi'u talgrynnu)
- Cyflogaeth: 600 (amcangyfrif gweithle'r ONS, 2020). Cyflogwyr mawr: deiliaid Stad Ddiwydiannol Crofty, Cyngor Abertawe (ysgol)

Nodwn yn y tabl isod ddadansoddiad o broffil oedran y trigolion sy'n byw yn y ward a sut mae hyn yn cymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Abertawe. Mae cynrychiolaeth plant bach, plant ifanc a phobl ifanc yn eu harddegau hyd at 15 oed, sy'n byw yn ward Penclawdd, ychydig yn is na'r gynrychiolaeth gyfartalog a gofnodwyd ar gyfer yr ardal ehangach (Abertawe).

Ar yr un pryd, mae cynrychiolaeth yr oedolion hŷn rhwng 45 a 64, 65 i 74 a 75 oed a throsodd, sy'n byw yn y ward, yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer yr ardal ehangach.

² Ffynhonnell: Rhagamcanion seiliedig ar 2018 ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru

³ Ffynhonnell: Gwybodaeth, Ymchwil a GIS (Uned Cyflawni Strategol), Ebrill 2022. Sylwer: Mae'r wybodaeth yn y proffil hwn yn ymwneud â'r ward flaenorol cyn etholiadau'r Cyngor ar 5 Mai 2022. Datblygir proffiliau ar sail y wardiau newydd cyn gynted â phosibl.

Poblogaeth	Penclawdd		Abertawe %
	Cyfanswm	%	
Oedran: 0 - 4	125	3.5%	4.9%
5 - 15	375	10.5%	12.0%
16 - 24	296	8.3%	13.6%
25 - 44	727	20.4%	25.3%
45 - 64	1,025	28.7%	24.4%
65 - 74	553	15.5%	10.5%
75+	468	13.1%	9.3%
Cyfanswm	3,569	100.0%	100%

Ffynhonnell: Gwybodaeth a GIS – Cyngor Abertawe, Ebrill 2022

Nifer y trigolion yn y ward sydd â phroblem iechyd hirdymor neu anabledd yw 884. Mae hyn yn cynrychioli 24.3% o'r boblogaeth sydd ar gael, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd a gofnodwyd ar gyfer Abertawe. Ceir canran uwch hefyd o aelwydydd un person â phreswylwyr 65 oed a throsodd o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Abertawe (15.3% o'i gymharu â 13.4%).

O ran Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, mae dwy Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) ar gyfer Penclawdd a gwelir gwahaniaeth sylweddol rhwng y ddwy ardal. Mae Penclawdd 2 yn fwy difreintiedig, yn safle 86 allan o 148 yn Abertawe a safle 1,255 o 1909 (mae hyn yn cymharu â 112 a 1667 yn y drefn honno ar gyfer Penclawdd 1).

Daw LSOA Penclawdd 2 yn gymharol uchel yn y mynegai amddifadedd o ran meysydd iechyd a chyflogaeth.

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o broffil economaidd-gymdeithasol y ward. Yn galonogol, o ran cyflogaeth a dosbarthiad 'mathau o swyddi,' mae gan Benclawdd gynrychiolaeth uwch o drigolion sy'n gweithio mewn swyddi rheoli, gweinyddol a phroffesiynol uwch o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Abertawe. Mae patrwm tebyg yn cael ei ailadrodd ar gyfer preswylwyr mewn galwedigaethau canolradd. Ar yr un pryd, mae canran y trigolion nad ydynt erioed wedi gweithio ac sy'n ddi-waith yn yr hirdymor yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Abertawe.

Dosbarthiad cymdeithasol-economaidd (NS-SeC)	Penclawdd	Penclawdd %	Abertawe %
Pob preswlydd arferol 16-74 oed	2,645	100%	100%
1-2. Rheolaethol, gweinyddol a phroffesiynol uwch	874	33.0%	27.5%
3-4. Galwedigaethau canolradd	661	25.0%	20.3%
5-7. Galwedigaethau arferol a gwaith llaw	847	32.0%	33.9%
8. Erioed wedi gweithio ac yn ddi-waith yn y tymor hir	82	3.1%	5.2%
Heb eu dosbarthu (myfyrwyr llawn amser)	181	6.8%	13.1%

Ffynhonnell: Gwybodaeth a GIS – Cyngor Abertawe, Ebrill 2022

O ran gweithgaredd economaidd o fewn y ward, dosberthir canran uwch o drigolion 16 – 74 oed fel rhai economaidd weithgar o gymharu ag Abertawe (65.9% o'i gymharu â 63%). Mae canran yr holl hawlwyrr budd-daliadau yn y ward yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Abertawe.

3.2 Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer Graig y Coed?

- Mae gan y gynrychiolaeth o oedolion hŷn oblygiadau o ran dylunio'r llwybrau (o ran graddiant), y deunydd arwyneb yn y maes parcio lefel uwch a lleoliad cyfleusterau fel meinciau. Dylid nodi y bydd topograffeg y safle'n gwneud mynediad yn fwy anodd i oedolion hŷn.
- Bydd datblygu coedwig gymunedol hygyrch yn creu cyfleoedd ar gyfer gwella iechyd a lles. Ar yr un pryd, trwy wirfoddoli bydd cyfleoedd i leihau arwahanrwydd cymdeithasol.
- Mae darparu mynediad i amgylcheddau awyr agored deniadol am ddim yn debygol o fod yn ystyriaeth bwysig i Graig y Coed.

4.0 Ymgynghoriad ac ymchwil gynradd

4.1 Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Fel rhan o gynnal yr astudiaeth ddichonoldeb hon, ymgysylltwyd â nifer o randdeiliaid allweddol a phartïon â diddordeb a nodwn isod yr adborth uniongyrchol a ddeilliodd o'r ymarfer ymgynghori (gweler Atodiad Un am y rhestr o bobl yr ymgynghorwyd â nhw, y bu i ni gwrdd â rhai ohonynt wyneb yn wyneb yn ystod yr ymweliad safle). Dylid pwysleisio bod y bobl yr ymgynghorwyd â nhw'n cefnogi adfywio'r safle i greu coedwig gymunedol sy'n hygyrch ac yn adnodd hamdden.

Y cynigion presennol

Cydnabuwyd y cynigion fel y'u datblygwyd gan y Pwyllgor Gwirfoddol fel y 'cynnig craidd' ac fe'u cefnogwyd yn eang. Mae cyfleoedd i wella'r cynigion yn cynnwys, er enghraifft, cyflwyno pwll bas wedi'i leinio â chlai fel rhan o'r cynigion ehangach i wella bioamrywiaeth y safle. Teimlai rhai ymgynghoreion y dylid, ar y cyfan, osgoi cyflwyno cyfleusterau fel toiledau neu gynnig arlwygo o fewn ffin y safle, neu y gellid ystyried toiledau fel rhan o gam datblygu eilaidd. Gweler sylwebaeth ychwanegol isod.

Teimlai ymgynghoreion y byddai datblygu coedwig gymunedol hygyrch yn apelio'n eang ymhlith trigolion lleol a grwpiau defnyddwyr eraill ac y byddai'n dod yn 'adnodd pwysig.' Nid yw'r prosiect wedi'i ddiffinio gan oedran, anabledd nac anfantais a gallai weithredu fel 'canolbwynt' i'r gymuned.

Amlygwyd bod ystafell storfa o fewn adeilad y pafiliwn y gallai'r gwirfoddolwyr ei defnyddio yn amodol ar drafodaeth bellach.

Natur – rheswm pellach i ymweld

Ceir amrywiaeth o fywyd gwyllt o fewn ffin y safle gan gynnwys ieir bach yr haf (Glas yr Hydref), planhigion (tegeirianau) ac adar. Gwelir patrymau tymhorol o fywyd adar hefyd dros y gwlyptiroedd a'r aber, sy'n fantais bellach. Bydd y buddsoddi'n arwain at greu cynefinoedd newydd a gallai'r 'natur' sy'n bresennol ar y safle ddod yn 'dynfa' neu'n 'atyniad' ynddo'i hun. Fodd bynnag, rhaid sicrhau cydbwysedd gofalus rhwng natur a defnydd hamdden.

Defnydd grŵp

Teimlwyd y gallai llecyn penodol yn y goedwig gynnig ei hun ar gyfer ei ddefnyddio'n anffurfiol gan grwpiau, o'r Sgowtiaid i Ysgol Gynradd Penclawdd, a theithiau cerdded cymunedol. Soniwyd hefyd am ddefnydd grŵp arall fel 'ioga yn y coed' a defnydd o'r llwybrau gan y clwb rygbi (at ddibenion hyfforddi).

Cydnabyddir bod y Sgowtiaid (Criw Cybiau ar hyn o bryd) yn ceisio datblygu criwiau Sgowtiaid ac Afancod hefyd. Ar hyn o bryd, gofod allanol cyfyngedig sydd ganddynt ger yr adeilad a ddefnyddir ganddynt (fodd bynnag, mae ganddynt fynediad i ardal o goedwig ger Tre-gŵyr a maes gwersylla ger Maes Awyr Abertawe).

Cyfleoedd sy'n gysylltiedig â lles

Teimlir bod galw am weithgareddau cerdded iach dan arweiniad y gymuned ym Mhenclawdd a gellid integreiddio Graig y Coed o fewn llwybr cylchynol ar gyfer gweithgareddau cerdded grŵp yn y dyfodol. Darparodd Cyngor Abertawe hyfforddiant ar gyfer arweinydd grŵp cerdded ym Mhenclawdd, a cheir nifer sylweddol o grwpiau cerdded iach sefydledig yn Abertawe. Ar wahân i'r buddion iechyd corfforol, bydd buddion iechyd ehangach yn gysylltiedig â lleihau arwahanrwydd cymdeithasol (trwy weithgareddau grŵp a gwirfoddoli).

Yn ystod trafodaethau ag un ymgynghorai, Andrew Price, amlygwyd y gallai Graig y Coed gael ei ddefnyddio o bosibl ar gyfer rhagnodi cymdeithasol, ble mae'r amgylchedd naturiol yn addas iawn ar gyfer gweithgareddau fforio, gweithgareddau crefft a'r weithred syml o fod yn y goedwig gyda than a diod boeth, sydd oll yn cefnogi iechyd a lles. Mae'r safle'n elwa o gael poblogaeth ar ei stepen drws sydd o fewn pellter cerdded i'r goedwig. Mae Andrew Price yn rhan o Dryad Bushcraft sy'n cynnig gweithgareddau'r goedwig ac mae'n rheoli prosiect peilot rhagnodi cymdeithasol yng Nghoed y Parc yng Ngŵyr, ble mae hefyd wedi adfywio goedwig.



Llun trwy garedigrwydd Andrew Price.

Twristiaeth

Denodd gogledd Gŵyr fuddsoddiad gan y sector preifat i ddatblygu'r cynnig twristiaeth – er enghraifft, y Rake and Riddle a GG's Gelato. Mae'r goedwig gymunedol, yn enwedig o'r maes parcio uchaf, yn cynnig golygfa dda (yn enwedig o ran gwyllo'r machlud). Yn ogystal, nododd ymchwil a gomisiynwyd gan dîm Twristiaeth Abertawe fod y dirwedd naturiol yn atyniad allweddol i ymwelwyr gyda 67% o ymwelwyr yn nodi bod gan y gyrchfan enw da am dwristiaeth werdd. Hefyd, bydd 46% o ymwelwyr yn cymryd rhan mewn gweithgaredd cerdded lefel isel pan fyddant ar wyliau (mae taith gerdded lefel isel yn llai na 2 filltir o hyd).

Teimlir y byddai buddsoddi yn y goedwig gymunedol, a'i datblygu'n ategu'r cynnyrch twristiaeth ehangach. Ceir cysylltiad strategol cryf hefyd â Croeso Cymru a fydd yn gwthio 'llwybrau' fel thema allweddol yn ystod 2023.

Ystyriaethau eraill y farchnad

O ystyried lefel y drafnidiaeth sy'n pasio ar y Promenâd, byddai o fudd buddsoddi mewn arwyddion ffyrdd i hybu'r goedwig gymunedol i fodurwyr sy'n pasio (gan helpu i godi ymwybyddiaeth). Byddai hyn yn digwydd law yn llaw â gweithgareddau marchnata eraill.

Cefnogaeth refeniw a gwirfoddolwyr

Teimlwyd y byddai Cyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf yn gyfrifol am reoli unrhyw wariant cyfalaf i'r dyfodol. Cydnabuwyd y byddai angen cael cefnogaeth refeniw parhaus ar gyfer y prosiect.

Bydd rôl gwirfoddolwyr yn ganolog i gynnal a chadw parhaus y goedwig, er bod angen cefnogi datblygu 'pwll' o wirfoddolwyr (o bosib drwy gyflogi cydlynnydd gwirfoddoli ar gytundeb byrdymor). Gweler isod am ragor o sylwadau.


4.2 Ymchwil gynradd

Roedd rhan o'r astudiaeth ddichonoldeb yn ymwneud â datblygu arolwg ar-lein byr a hyrwyddwyd gan daflen a ddosbarthwyd gan Gyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf. Cynhyrchodd yr arolwg ychydig dros 100 o ymatebion (104). Isod amlinellir y canfyddiadau allweddol a amlygir mewn perthynas â datblygu'r cynnig yng Ngraig y Coed.

Dylid nodi bod y Pwyllgor Gwirfoddol wedi cynnal rhaglen ymgysylltu cyn hyn, a gynhyrchodd 79 e-bost yn cefnogi'r prosiect. Yn ogystal, cynigiodd 36 o unigolion ddarparu cymorth 'ymarferol' i gefnogi'r prosiect.


4.2.1 Cyfranogwyr

Dengys y siart isod ddadansoddiad o ystod oedran y cyfranogwyr. Fel y gellir gweld mae canran sylweddol o'r cyfranogwyr (25%) yn 65 oed a hŷn.



- 74% o gyfranogwyr yn byw o fewn 10 munud i Graig y Coed
- 22% o gyfranogwyr yn byw tua 11 i 20-minutes i Graig y Coed
- 4% gyfranogwyr yn byw tua 21 i 30-minutes i Graig y Coed
- 63% o gyfranogwyr yn fenywaidd
- 36% o gyfranogwyr yn wrywaidd
- 1% wedi dewis peidio â dweud
- 98% o gyfranogwyr yn wyn
- 1% grwpiau ethnig cymysg neu luosog
- 1% unrhyw grŵp ethnig arall

Gofynnwyd i gyfranogwyr ddisgrifio'u statws cyflogaeth: mae 59% mewn rhyw fath o gyflgoaeth gyflogedig (llawn amser, rhan amser neu hunan-gyflogedig); mae 30% wedi ymddeol; mae 4% yn cadw cartref, mae 4% yn fyfyrwyr ac mae ychydig dros 1% yn ofalwyr neu'n methu â gweithio.⁴ Gweler y siart isod.



4.2.2 Defnydd presennol


Yn ystod yr ymgynghoriad a'r ymweliadau safle amlygwyd mai defnydd cyfyngedig iawn a wneir o'r safle ar hyn o bryd a'i bod hi'n anodd cael mynediad ato. Fodd bynnag, holi am ddefnydd presennol roedd yr arolwg a nodwn yr ymatebion isod:

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr pa mor aml y byddan nhw'n ymweld â'r goedwig – ac eithrio cerdded ar hyd y llwybr isaf ger y caeau pêl-droed a rygbi neu'r llwybr cyhoeddus ar hyd ffin uchaf y safle sy'n cysylltu Penclawdd a Chapel Hermon.


Yn gyffredinol, bydd 40% o gyfranogwyr yn ymweld o leiaf unwaith y mis ac mae 31% o gyfranogwyr yn ymweld o leiaf unwaith yr wythnos

Roedd 9% o'r cyfranogwyr wedi ymweld unwaith ac nid oedd 23% o'r cyfranogwyr wedi ymweld â'r goedwig o'r blaen. Gweler y siart isod am ddadansoddiad manwl.

⁴ Talgrynnwyd ffigurau



O ran amser aros ar y safle, mae ychydig o dan 50% o gyfranogwyr sy'n ymweld â Graig y Coed yn treulio hyd at 30 munud ar y safle ac bydd 33% pellach yn treulio rhwng 30 a 60 munud ar y safle. Llai na 18% o gyfranogwyr fydd yn treulio mwy na 60 munud ar y safle. Gweler y siart isod am ddadansoddiad manwl.



Pryderu am gynnwys hyn

4.2.3 Edrych ar elfennau craidd y 'cynnig' i'r dyfodol

Gofynnwyd i'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg a oedden nhw'n teimlo bod elfennau unigol o'r 'cynnig' posibl naill ai'n hanfodol, yn ddymunol neu'n ddiangen. Yn y tabl isod nodwn y canlyniadau. Dangoswn hefyd ble ceir cefnogaeth gyffredinol (mewn print trwm) sy'n cyfuno'r colofnau hanfodol a dymunol.

Elfennau	Hanfodol	Dymunol	Cefnogi'r syniad	Diangen
Seddi	66.32%	31.58%	97.90%	2.11%
Rhwydwaith o lwybrau cerdded hunan-dywys	45.83%	50.00%	95.83%	4.17%
Cynllun / map y safle ger mynedfeydd i'r goedwig	64.58%	31.25%	95.83%	4.17%
Gwell bioamrywiaeth	58.51%	37.23%	95.74%	4.26%
Arwyddion cyfeirio	53.61%	40.21%	93.82%	6.19%
Ardaloedd ar gyfer rhoi sylw i fywyd gwylt a / neu dreftadaeth y safle / ardal leol	55.32%	38.30%	93.62%	6.38%
Gwelliannau i'r maes parcio lefel uwch (gyferbyn â Chapel Mynydd Hermon)	59.79%	28.87%	88.66%	11.34%
Llwybr chwarae yn y goedwig	41.05%	47.37%	88.42%	11.58%
Ardal bicnic	46.81%	37.23%	84.04%	15.96%
Dehongli addas	31.52%	52.17%	83.69%	16.30%
Cyfleuster ystafell ddosbarth awyr agored	21.05%	58.95%	80.00%	20.00%
Llwybr cyfeiriannu	18.09%	58.51%	76.60%	23.40%
Toiledau	28.42%	46.32%	74.74%	25.26%
Digwyddiadau / gweithgareddau a drefnwyd ar raddfa fechan e.e. ymdrochi yn y goedwig, yoga, teithiau cerdded natur, crefftau'r goedwig	21.05%	52.63%	73.68%	26.32%

Ardal chwarae	19.57%	50.00%	69.57%	30.43%
Ardal weithgaredd i gŵn (wedi'i ffensio)	26.60%	37.23%	63.83%	36.17%
Cynnig tebyg i Men's Shed	11.96%	41.30%	53.26%	46.74%
Cynnig lluniaeth ysgafn	7.53%	43.01%	50.54%	49.46%

Dengys y tabl fod 14 o'r 18 elfen wahanol wedi cynhyrchu canran gyfunol o dros 70% (h.y. roedd o leiaf 70% o'r cyfranogwyr yn teimlo bod yr 'elfen' neu'r 'defnydd' neu 'weithgaredd' arfaethedig naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol). Mae hyn yn helpu i ddangos y galw am ddatblygu adnodd hamdden ac amgylcheddol coedwig gymunedol.

Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod sawl 'defnydd' a nodwyd yn yr ymchwil cynradd wedi cynhyrchu sgôr uchel, ond nad yw rhai ohonynt yn addas yn ein barn ni. Er enghraifft, cafodd creu ardal chwarae bwrpasol sgôr gadarnhaol o ran cefnogaeth gyffredinol (70%), ond sicrhawyd cyllid i uwchraddio'r ardal chwarae yn y pentref. Felly, nid oes fawr o rinwedd mewn cyflwyno cynnig chwarae pwrpasol arall yn y goedwig gymunedol. Er, efallai y bydd cyfleoedd i gyflwyno elfennau chwarae ar hyd rhan o lwybr arfaethedig (yn amodol ar gyllid).]

Yn yr un modd, cafodd toiledau sgôr cadarnhaol cyffredinol o 75%. Mae nifer o fanteision yn gysylltiedig â chyflwyno bloc toiledau pwrpasol – cynyddu apêl, ehangu mynediad a chynyddu amser aros. Fodd bynnag, mae nifer o gyfyngiadau'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn yn enwedig o ran gofynion cyfalaf (yn debygol o fod dros £150,000 ar gyfer bloc toiledau unigol) a chanfod lleoliad addas o fewn ffin y safle. Yn bwysig, nid chwarae bach fydd costau parhaus o ran agor, cau a glanhau'r toiledau o ddydd i ddydd, costau cynnal a chadw cyfnodol, a chyfleustodau. Gallai opsiwn cost is o bosibl gynnwys cyflwyno dwy W/C allanol ger adeilad y Pafiliwn ei hun (y mae ganddo wasanaethau ar hyn o bryd). Efallai y byddai cyflwyno toiledau'n fwy addas ar gyfer ail gam y datblygiad. Ar gyfer ymweliadau grŵp 'a archebwyd ymlaen llaw' efallai y bydd modd defnyddio'r toiledau presennol yn adeilad y pafiliwn (yn amodol ar drafodaeth). Tynnwyd sylw at y ffaith fod toiledau cyhoeddus ar gael yng Nghanolfan Iechyd Penclawdd, sydd o fewn pellter cerdded.

Yn ddiddorol, cynhyrchwyd y sgôr gyfunol isaf gan y syniad o gyflwyno cynnig lluniaeth – dim ond 50.54% o'r cyfranogwyr oedd naill ai'n teimlo bod y defnydd hwn naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Yn ystod yr ymgynghoriad teimlwyd y byddai cyflwyno cynnig lluniaeth yn disodli masnach oddi wrth y darparwyr arlwyio presennol ym Mhenclawdd ac na ddylid bwrw ymlaen â hynny.

Roedd modd i gyfranogwyr [gyflwyno sylwadau pellach](#) hefyd, a nodir rhai ohonynt isod:

- “Mae mynediad llawn i'r anabl yn hanfodol. Dylid cadw harddwch y goedwig arw naturiol. Ar wahân i ystafell ddosbarth ni ddylid codi unrhyw adeiladau ychwanegol ar y safle.”
- “Biniau cŵn yn hanfodol. Llwybrau addas at ddefnydd pob tywydd.”
- “Mae'r safle wedi gordyfu ar hyn o bryd ond mae'n gartref i rai adar prin sy'n nythu yma (gan gynnwys y llinos a'r fronfraith, y ddau yn rhywogaethau ar y rhestr goch) y'i gwelais yn aml yn y gwanwyn a'r haf. Mae yna hefyd lain o glychau'r gog brodorol gwyllt (o dan y llwybr isaf) yn ogystal â gwyfynod a gloënnod byw, gan gynnwys gwalchwyfyn hofrol, y glesyn bach, trilliw bach, mantell paun ac eraill. Rwy'n gobeithio y gellir rheoli'r safle yn y fath fodd fel bod y rhywogaethau hynny'n aros ac yn cael eu hannog i ffynnu. Yn bersonol fyddwn i ddim eisiau gweld y safle'n cael ei orddatblygu ond, yn hytrach, ei reoli a'i gynnal a'i gadw ac yna ei wella ymhellach gyda blodau gwyllt brodorol a choed. Mae angen cynnal arolwg ecolegol cyn ystyried unrhyw gynlluniau datblygu gan y bydd hwnnw'n rhoi darlun clir o'r hyn sydd yno a sut y gellir helpu'r rhywogaethau hynny i ffynnu. Gall Butterfly Conservation Cymru a BTO helpu gyda hyn.”
- “Mae'n hanfodol darparu mynediad llwybr troed o faes parcio Graig y Coed i faes parcio Hermon gan fod llawer o bobl leol yn teimlo'n ddigalon oherwydd y posibilrwydd o yrru ar hyd y lôn hynod gul mewn car. Os oes cyllid addas ar gael byddai'n wych lledu'r lôn neu o leiaf darparu mannau pasio ychwanegol.”
- “Mewn ardal ble mae llawer o geffylau, byddwn wedi disgwyl llwybr marchogaeth neu lwybr ceffyl.”
- “Byddwn eisiau i'r datblygiad fod yn gyfeillgar i gŵn gan fod y rhan fwyaf o'r bobl rwy'n cwrdd â nhw ar fy nhaith gerdded wythnosol yn cerdded gyda chŵn. Mae hon yn daith gerdded hyfryd nawr er nad oes arwyddion o bwys. Yn bersonol, byddai'n well gen i gadw'r amgylchedd naturiol hwn gyda llwybrau troed gwell, a chynnal a chadw'r rhai sydd yno, heb adael iddyn nhw fynd yn amhosib cerdded, ar eu hyd fel ar hyn o bryd.”
- “Rwy'n meddwl mai'r mater allweddol yw mynediad i bobl sy'n byw ymhellach na thaith gerdded i ffwrdd. Byddai cael maes parcio da'n datgloi'r safle. Gwnewch iddo deimlo fod perchnogaeth a gofal yno. Does dim angen llawer ar bobl i fwynhau natur. Mae llwybrau antur a ffitrwydd yn annog plant a phobl iau.”

Codwyd **rhai pryderon**:


- “Ar hyn o bryd defnyddir y maes parcio fel lleoliad ar gyfer cymryd a gwerthu cyffuriau hamdden anghyfreithlon. Mae rhai o'r bobl ifanc dan sylw, gan gynnwys merched, yn edrych i fod o dan 16 oed ac felly rhaid eu hystyried yn agored i niwed. Rhaid mynd i'r afael â'r broblem hon os yw'r cynllun hwn am fod yn unrhyw fath o lwyddiant.”
- “Gwastraff arian gan fod pobl yn cael anhawster gyda chostau a chyfleustodau cynyddol. Byddai'n well buddsoddi'r arian i helpu pobl i fyw a gwella cyflwr ofnadwy heolydd y pentref.”
- “Fel sy'n wir bob amser, bydd sbwriel yn bryder fel y profwyd gan brosiectau tebyg ledled y DU. Mae ardal Gogledd Gŵyr yn fan problemus ar gyfer tipio anghyfreithlon a rhaid mynd i'r afael â hyn cyn lansio'r prosiect hwn.”

4.2.4 Galw yn y dyfodol

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr "A fyddai buddsoddi yn y cyfleusterau a'r gwasanaethau a nodwyd gennych uchod naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol o ran eich annog i ymweld naill ai am y tro cyntaf neu'n amlach?" Dywedodd 94% (93.81%) o gyfranogwyr y byddai, roedd 3.09% yn ansicr a dywedodd 3.09% na.

4.2.5 Ysgogiad ar gyfer ymweld â'r goedwig gymunedol

Mae'r tri phrif reswm pam y byddai pobl yn ymweld â Graig y Coed yn y dyfodol yn cyfrif am 62% o'r holl ymatebion. Y prif resymau yw treulio amser yn yr awyr agored, mynd am dro a mynd â'r ci am dro. Gweler y siart isod am ddadansoddiad.



Sylwer, er na ddewiswyd 'cymryd rhan mewn ymweliad ysgol ffurfiol' gan unrhyw un sy'n ymwneud ag Ysgol Gynradd Penclawdd, fod yr ysgol yn awyddus i ddefnyddio'r goedwig. Yn bendant, mae'r ysgol yn gefnogol i'r ardal goedwig newydd. Byddai'n gyfle i ehangu dysgu awyr agored i ddisgyblion ac o bosibl cynnwys gweithgareddau clwb. Gallai'r disgyblion hynaf gerdded yno a mwynhau'r profiadau a gynigir. Byddai hefyd o fudd i'r gymuned ehangach ble mae'r plant yn byw.

4.2.6 Manteision allweddol

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr ystyried pa mor bwysig yn eu barn nhw y byddai'u hymweliadau â'r goedwig gymunedol yn y dyfodol o ran pedwar maes gwahanol:

- Teimlai 87% o'r cyfranogwyr y byddai'r ymweliadau'n bwysig neu'n bwysig iawn o ran manteision meddyliol neu gorfforol
- Teimlai 86% o'r cyfranogwyr y byddai'r ymweliadau'n bwysig neu'n bwysig iawn o ran lle i ddysgu amdano a chysylltu â natur
- Teimlai 82% o'r cyfranogwyr y byddai'r ymweliadau'n bwysig neu'n bwysig iawn o ran treulio amser gyda ffrindiau a theulu
- Teimlai 79% o'r cyfranogwyr y byddai'r ymweliadau'n bwysig neu'n bwysig iawn o ran bod yn ddiwrnod allan cymharol rad

Gweler y tabl isod am ddadansoddiad manwl.

	Dibwys	Ychydig yn bwysig	Dim barn wirioneddol	Pwysig	Pwysig iawn	Cyfanswm Pwysig + Pwysig iawn
Manteision meddyliol neu gorfforol	3.09%	6.19%	4.12%	41.24%	45.36%	86.60%
Lle i ddysgu am natur a chysylltu ag ef	4.12%	4.12%	6.19%	39.18%	46.39%	85.57%
Amser gyda ffrindiau a theulu	7.22%	3.09%	7.22%	42.27%	40.21%	82.48%
Diwrnod mas cymharol rad	6.19%	4.12%	10.31%	38.14%	41.24%	79.38%

Mae'n amlwg y byddai datblygu'r goedwig yn darparu lle gwerthfawr nid yn unig o ran llesiant, ond hefyd o ran gallu cysylltu â natur a threulio amser gyda ffrindiau a theulu.

4.3 Crynodeb

I grynhoi, ceir cefnogaeth gyffredinol o du cyfranogwyr yr ymchwil (aelodau'r gymuned), Cyngorwyr, rhanddeiliaid a phartïon â diddordeb, o blaid datblygu coedwig gymunedol / cynnig hamdden yng Ngraig Y Coed.

5.0 Opsiynau datblygu a gwerthusiad

O ran gwerthuso'r opsiwn a ddatblygwyd gan y Pwyllgor Gwirfoddol mae'n bwysig dangos bod hwn wedi'i brofi yn erbyn opsiynau amgen eraill, gan gynnwys opsiwn sylfaen (parhau fel y mae) ac ymyriad ar raddfa ganolog.

Isod nodwn dri opsiwn craidd:

- Opsiwn Un: Parhau fel y mae (y sylfaen)
- Opsiwn Dau: Coedwig gymunedol (a ddatblygwyd gan y Pwyllgor Gwirfoddol)
- Opsiwn Tri: Ymyrraeth ar raddfa ganolog

Ar gyfer pob un o'r opsiynau nodwn ddisgrifiad byr, rhesymwaith a'r cynulleidfaoedd allweddol. Nodwn hefyd gryfderau / manteision allweddol a gwendidau / cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn.

5.1 Opsiynau craidd

5.1.1 Opsiwn Un: Parhau fel y mae (sylfaen)

Disgrifiad cryno	Parhau fel y mae gyda gwaith cynnal a chadw parhaus cyfyng
Rhesymwaith	Lleihau costau a risg i'r Cyngor
Cynulleidfaoedd allweddol	Preswylwyr lleol (tynnodd yr arowlg diweddaraf sylw at rywfaent o ddefnydd lleol)
Cryfderau / manteision	Gwendidau / Cyfyngiadau
• Ar hyn o bryd, nid oes angen unrhyw adnoddau ychwanegol gwirioneddol gan y Cyngor (dynol nac ariannol) • Ar hyn o bryd, nid oes angen cyllid cyfalaf • Syml i barhau fel y mae • Ymagwedd risg (ariannol) isel ar gyfer Cyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf (o ystyried yr argyfwng economaidd presennol a'r wasgfa ar gyllidebau)	• Mae'n parhau i fod yn safle nad yw'n cael ei ddefnyddio ddigon • Nid yw'n bodloni angen 'cymunedol' fel yr amlygwyd yn yr ymgynghoriad na'r ymchwil sylfaenol • Cyfyng yw'r manteision iechyd, lles neu amgylcheddol a gyflawnir • Bydd y dreftadaeth yn parhau i fod yn gudd (ac o bosibl ar goll) • Potensial ar gyfer cysylltiadau cyhoeddus negyddol os gadewir y safle i 'ddirywio' • Yn cynrychioli cyfle a gollwyd

5.1.2 Opsiwn Dau: Coedwig Gymunedol

Disgrifiad cryno	Fel y'i datblygwyd gan y Pwyllgor Gwirfoddol mae'r cynnig yn canolbwyntio ar wella hygyrchedd i Graig y Coed trwy gyflwyno rhwydwaith ffurfiol o lwybrau a chefnogi isadeiledd hamdden a dehongli. Mae hyn yn digwydd law yn llaw â gwella bioamrywiaeth y lleoliad
Rhesymwaith	• Adfywio hen safle diwydiannol i greu coedwig gymunedol hygyrch (creu 'lle' sy'n addas i bob oed) • Darparu cyfleoedd ar gyfer hamdden anffurfiol a gwella iechyd a lles • Sicrhau dyfodol y safle i'r gymuned leol • Diwallu angen a nodwyd
Cynulleidfaoedd allweddol	• Trigolion lleol • Potensial ar gyfer rhywfaint o ddefnydd grŵp cyfyngedig (e.e. Sgowtiaid ac ysgol gynradd leol) • Peth potensial cyfyngedig ar gyfer y farchnad ymwelwyr
Cryfderau / manteision	Gwendidau / Cyfyngiadau
• Cyflymder cyflawni o'i gymharu ag Opsiwn Tri • 'Hyrwyddwr Prosiect' yno'n barod • Creu amgylchedd mwy croesawgar a chanolbwynt i'r gymuned • Diwallu angen cymunedol • Angen cyfalaf cymharol isel • Darparu cyfleoedd i wirfoddoli	• Dim cyfle i gynhyrchu refeniw • Cost 'refeniw' barhaus sy'n gysylltiedig â dod â'r safle yn ôl i ddefnydd • Angen adnoddau dynol ychwanegol i reoli a allai gynnwys Cyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf a gwirfoddolwyr o ddydd i ddydd, ynghyd â chefnogaeth arbenigol gan gontractwr (yn ôl yr angen) • Darpariaeth gyfyngedig yn unig o ran isadeiledd i ymwelwyr e.e. dim toiledau (sy'n helpu i leihau costau ond a allai effeithio ar apêl ac amser aros)

5.1.3 Opsiwn Tri: Senario datblygu lefel canolig – adeilad hwb

Disgrifiad cryno	Mae'r dewis hwn yn adeiladu ar Opsiwn dau, fel y'i datblygwyd gan y Pwyllgor Gwirfoddol. Y gwahaniaeth allweddol yw bod yr opsiwn hwn yn cynnwys adeilad hwb i ymwelwyr sy'n cynnwys caffi bychan a thoiledau.
Rhesymwaith	• Mae'n adfywio cyn safle diwydiannol i greu coedwig gymunedol • Darparu cyfleoedd ar gyfer hamdden anffurfiol a gwella iechyd a lles • Sicrhau dyfodol y safle i'r gymuned leol • Cynhyrchu incwm • Creu cyfleoedd cyflogaeth a datblygu sgiliau / hyfforddiant trwy brentisiaethau (rheoli tirwedd ac arlwy / lletygarwch)
Cynulleidfaoedd allweddol	• Trigolion lleol • Grwpiau lleol (e.e. Sgowtiaid, ysgol gynradd leol ac eraill o gael mynediad i'r adeilad) • Rhyw gymaint o ymdreiddiad gan farchnad ymwelwyr Gŵyr
Cryfderau / manteision	Gwendidau / Cyfyngiadau
• Cyfleoedd i gynhyrchu refeniw • Creu swyddi a chyfleoedd hyfforddi • Darparu cyfleuster pob tywydd sy'n annog rhywfaint o ddefnydd trwy gydol y flwyddyn • Darparu lle i ystod ehangach o grwpiau defnyddwyr mewn man adeiledig deniadol • Creu ased cymunedol cryfach	• Byddai angen cymhorthdal refeniw uchel parhaus gan roi 'baich' sylweddol ar Gyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf • Costau ac adnoddau cynnal a chadw a rheoli sylweddol uwch • Yn debygol o ddisodli 'masnach' o siopau arlwy ym Mhenclawdd • Gofyniad cyfalaf uchel, yn enwedig mewn perthynas â datblygu math o adeilad fel canolfan ymwelwyr • Diffyg profiad o reoli'r math yma o brosiectau yn ystod y cyfnod gweithredol • Anodd ei leoli ar y safle (dim gwir leoliad hygyrch i gyflwyno'r math o adeilad fel canolfan ymwelwyr) • Dim hyrwyddwr prosiect

5.2 Meini prawf gwerthuso

Isod amlinellir y meini prawf sgorio / gwerthuso a ddefnyddiwyd i asesu'r opsiynau gwahanol.

Meini prawf gwerthuso	
Ystyriaethau safle ac amgylcheddol	
Addasrwydd i'r safle presennol / integreiddio (daliad tir presennol)	Pa mor dda mae'r opsiwn yn cyd-fynd â gofynion y lleoliad / defnydd ehangach o le?
Effaith amgylcheddol	Yr effaith amgylcheddol tebygol yn enwedig o ran cynaliadwyedd, gwastraff, llygredd ac addasrwydd y defnydd arfaethedig ac o ran tirwedd a gosodiad Graig y Coed.
Ystyriaethau'r farchnad	
Apêl / addasrwydd y farchnad	Potensial i ymgysylltu â'r farchnad leol (gan gynnwys defnydd gan grwpiau)
Cynhyrchu ymweliadau o blith y farchnad ehangach	Mae'n cynhyrchu ymweliadau gan y farchnad dwristiaeth ehangach yng Ngŵyr
Gofynion cyfalaf a darparu'r prosiect	
Costau cyfalaf	Dyrannwyd ystod o gostau lefel uchel dangosol gennym ar raddfa symudol ar gyfer sgorio o ran gofynion cyfalaf amcangyfrifedig – o'r uchaf i'r isaf.
Modd cyflwyno'r prosiect yn ymarferol	Rhwyddineb cyflawnadwyedd gan gynnwys y broses ddatblygu (h.y. a yw'n syml neu a oes pryderon ynghylch symud ymlaen / gweithredu'r opsiwn?)`
Risg	Lefel y risg sy'n gysylltiedig â chyflawni'r opsiwn – yn ymwneud â'r risgiau cyffredinol sy'n gysylltiedig â bwrw ymlaen â'r opsiwn arfaethedig gan gynnwys sicrhau cyllid, nodi hyrwyddwr prosiect ac adeiladu'r cynnig

Gweithredol ac ariannol	
Cymhlethdod gweithredu	Cymhlethdod rheoli yn ystod y cyfnod gweithredu
Cynhyrchu refeniw	A oes gan yr opsiwn y gallu i gynhyrchu refeniw?
Costau gweithredu	Lefel y costau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn o ran rheoli'r safle a'r cyfleusterau
Effeithiau	
Effaith economaidd ehangach	Y gallu i greu cyfleoedd cyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol ac effeithiau economaidd ehangach drwy'r gadwyn gyflenwi
Manteision cymdeithasol a llesiant	Y gallu i greu cyfleoedd cymdeithasol a llesiant i'r gymuned leol

Noder nad oes asesiad cynllunio wedi cael ei gynnal.

5.3 Matrics sgorio

Aseswyd a sgoriwyd pob opsiwn o dan bob is-faen prawf mewn ffordd wrthrychol er mwyn gallu cymharu'r opsiynau gwahanol. Gwerthusir y sgorau a'u dyrannu'n seiliedig ar ystod o Sero i Ddeg. Ar gyfer rhai categorïau, e.e. risgiau datblygu, sgôr isel sy'n dangos bod lefelau uchel o risg (amlygir y categorïau hyn â seren).

Opsiynau datblygu	SAFLE ac AMGYLCHEDDOL			MARCHNAD			GOFYNION CYFALAF a DARPARU'R PROSIECT				GWEITHREDOL ac ARIANNOL				EFFEITHIAU			Cyfanswm sgôr wedi'i bwysoli
	Addasrwydd i'r safle presennol / integreiddio (daliad tir presennol)	Effaith amgylcheddol	Safle ac amgylcheddol (is-gyfanswm (heb ei bwysoli)	Addasrwydd i'r farchnad / apêl i'r gymuned	Denu defnyddwyr o'r farchnad ehangach	Is-gyfanswm y farchnad (heb ei bwysoli)	Cost cyfalaf dangosol*	Modd cyflwyno'r prosiect yn ymarferol	Risg datblygu*	Is-gyfanswm datblygu (heb ei bwysoli)	Cymhlethdod gweithredu	Potensial i gynhyrchu refeniw	Costau gweithredol gan gynnwys cynnal a chadw*	Is-gyfanswm gweithredol ac ariannol (heb ei bwysoli)	Effeithiau economaidd ehangach	Manteision cymdeithasol a llesiant	Is-gyfanswm effeithiau (heb ei bwysoli)	
Pwysoliad	2.0	2.5		2.75	1.0		1.0	1.5	2.0		1.5	1.5	2.5		1.5	2.5		
Opsiwn Un: Parhau fel y mae (Sylfaen)	9.0	6.0	15.0	3.0	0.0	3.0	9.0	9.0	8.0	26.0	9.0	0.0	9.0	18.0	0.0	2.0	2.0	120.8
Opsiwn Dau: Coedwig gymunedol (yn unol â gwirfoddolwyr cymunedo)	9.0	8.0	17.0	8.0	3.0	11.0	7.0	7.0	6.0	20.0	8.0	1.0	6.0	15.0	2.0	6.0	8.0	139.0
Opsiwn Tri: Senario datblygu lefel canolig – adeiladu hwb	4.0	6.0	10.0	8.0	6.0	14.0	2.0	2.0	1.0	5.0	1.0	5.0	1.0	7.0	5.0	8.0	13.0	97.0

5.4 Sylwadau cryno

I grynhoi, mae gan bob opsiwn fanteision a chyfyngiadau clir yn gysylltiedig â nhw.

Opsiwn Dau, y datblygiad cywair isel, fel y'i paratowyd gan y Pwyllgor Gwirfoddol, a gynhyrchodd y sgôr cyffredinol uchaf. Mae'n fwy priodol o ran ffurf a maint. Bydd yr opsiwn yn cael effaith amgylcheddol gadarnhaol ar leoliad y goedwig ac mae ganddo hefyd ffocws cymunedol cryf ac mae'n symlach i'w gyflawni a'i weithredu (gan ddefnyddio cymorth gwirfoddolwyr). Byddai angen i opsiwn sy'n ymdebygu i Opsiwn Tri gael cymorth ariannol a dynol parhaus i reoli'r goedwig, ond byddai'r prosiect yn darparu ystod eang o ganlyniadau cadarnhaol.

Fel rhan o adolygu Opsiwn Dau gwelir cyfleoedd i wella'r cynnig, a gellid ystyried y rhain fel cam eilaidd (yn amodol ar sicrhau cyllid cyfalaf ychwanegol). Gellid defnyddio hwn i 'adnewyddu' y cynnig.

- Offer chwarae ar raddfa fach neu gerfluniau ar hyd rhan o'r llwybr
- Lloches ffisegol (pren)

Gweler **Atodiad Dau** os gwelwch yn dda.

Mae gan **Opsiwn Tri** nifer o fanteision, yn enwedig o ran darparu lle ar gyfer mwy o ddefnydd trwy gydol y flwyddyn a chynhyrchu rhywfaint o gyflogaeth. Fodd bynnag, yn ein barn ni, mae'n opsiwn heriol a risg-uchel i'w gyflwyno, yn arbennig o safbwynt datblygu gan y byddai'n heriol ac yn gostus i integreiddio hwb neu adeilad i ymwelwyr a'r maes parcio ategol sydd ei angen o fewn ffin y safle. Yn ystod y cyfnod gweithredu ni fyddai'r gost o reoli a chynnal y safle a'r ganolfan ymwelwyr yn cael ei thalu gan yr incwm a gynhyrchir ar y safle a byddai'r opsiwn yn gofyn am lefel sylweddol o gymorth refeniw blynyddol parhaus. Ymhellach, byddai cyflwyno cynnig lluniaeth yn dyblygu ac yn cystadlu gyda'r cynnig presennol o fewn Penclawdd (gan ddisodli busnes o'r pentref). Yn ogystal, o fewn yr astudiaeth ehangach ceir datblygiad cyfagos Coed Dyffryn Penllergaer, a fydd yn cynnwys canolfan ymwelwyr o ansawdd uchel a chyfleusterau cysylltiedig, a fyddai i ryw raddau'n cystadlu â'r opsiwn hwn.

O ran **Opsiwn Un**, (yr opsiwn sylfaen, parhaus fel y mae) dyma a gynhyrchodd y sgôr uchaf ond un, ond yn ein barn ni, mae'n yn cynrychioli cyfle coll i'r gymuned.

O ran **themâu dehongli**, o ystyried yr uchelgais i gynyddu'r gorchudd coed, gellid datblygu naratif dehongli amgen o gylch yr agenda newid hinsawdd, gan archwilio'r defnyddiau echdynnu blaenorol a gysylltwyd â'r safle a sut y gall plannu coed arwain at ddal a storio CO². Ystyriaeth bellach yw patrwm tymhorol bywyd gwyllt ar y morfeydd heli a'r aber. O ran yr amgylchedd ehangach, mae'n bwysig nodi bod diddordeb cynyddol gan ddefnyddwyr yn yr 'amgylchedd' – gwelir hyn ar nifer o wahanol lefelau, er enghraifft: mae gan yr RSPB dros filiwn o aelodau a noda'r Adroddiad Blynyddol mai "Gwylio Adar yr Ardd 2021, a gynhaliwyd rhwng 29 a 31 Ionawr 2021, oedd ein mwyaf erioed. Cymerodd dros filiwn o bobl ran mewn gwylio adar torfol" a gwelwyd pobl yn 'ailgysylltu â natur' trwy gydol cyfnodau clo'r 34 mis diwethaf.

5.5 Costau cyfalaf dangosol

Fel rhan o'r cais arian Loteri yn 2021 amlygwyd costau cyfalaf ⁵ ac fe'u hamlinellir isod (yn net o DAW). Rhoddwyd cynnydd o 20% i'r rhan fwyaf o'r costau a nodwyd yn flaenorol.

⁵ Darparwyd dyfynbrisiau gan y contractwyr

Eitemau	Amcan-gost
Clirio llystyfiant i greu llwybrau ac ardaloedd agored areas (J Davis)	£5,872.35
Tair clwyd mynediad ar sail concrit gydag atalwyr beiciau modur, ynghyd â chlwyd mochyn mynediad anabl (J Davis)	£3,210.00
Sail carreg galch ac arwyneb Tarmacadam (60mm) i faes parcio Capel Hermon (J Davis)	£12,803
Rheilins / rhwystr diogelwch ar sail concrit i faes parcio Capel Hermon (J Davis)	£4,625
Ffensio (Ark Fencing Supplies)	£14,100
Seddi gyda gosodiadau concrit (Ark Fencing Supplies)	£6,960
Arwyddion gyda gosodiadau concrit (i'w drefnu)	£10,200
Gosod llwybrau ag ymylon o bren wedi'i drin, rhywfaint o Darmac (J Davis)	£34,800
Ardal Sgowtiaid / Geidiaid / picnic a gosodiadau wedi'u sicrhau (J Davis)	£5,400
Ardal ddosbarth a gosodiadau wedi'u sicrhau (J Davis)	£5,400
Coed â phrennau plannu ac offer gwarchod (cyflenwyr amrywiol, rhai'n rhad ac am ddim)	£4,800
Peiriannau / offer ar gyfer cynnal a chadw'r safle (Celtic Mowers). Stori diogel yn rhad ac am ddim	£10,008
Baneri ar hyd ymyl yr heol	£500.00
Gwefan y prosiect (gan ddefnyddio Wordpress neu rywbeth tebyg)	£3,000
Digwyddiad lansio cymunedol	£2,000
Cost dangosol – is-gyfanswm	£123,678
Arian wrth gefn @ 20%	£24,736

Rheolwr Prosiect rhan amser i barhau'r prosiect (cyllido, datblygu)	£12,000
Cost dangosol ac eithrio TAW a chynnydd chwyddiant	£160,414

Cyn gwneud unrhyw gais am arian, dylai'r costau hyn fod yn ddarostyngedig i waith dylunio manwl, asesiad technegol o'r safle a mewnbwn gan syrfëwr ansawdd prosiect.

Rydym wedi cynnwys cronfa wrth gefn (20%) law yn llaw â lwfans ar gyfer swyddog rhan-amser i reoli'r prosiect a'i symud yn ei flaen (cyn datblygu, wrth hel arian, ac yn ystod y cyfnodau datblygu), gwefan newydd ar gyfer y prosiect a digwyddiad lansio cymunedol i ddathlu'r prosiect.

Nid yw'r rhestr o gostau cyfalaf dangosol yn ystyried prisiau tendro cynyddol na chwyddiant. Ar hyn o bryd mae contractwyr yn bryderus iawn am risg – yn bennaf oherwydd ansicrwydd cyflenwi a chostau. Felly mae rhagweld costau'n gywir yn arbennig o heriol ar hyn o bryd. Noder y bydd costau'n debygol o gynyddu yn y cyfnodau i ddod.

Bydd angen costio am ffioedd proffesiynol e.e. dylunio cyn-datblygu, arolygon safle ⁶, mewnbwn cynllunio a syrfëo ansawdd ac ati (ni chynhwyswyd y costau hyn). Er mwyn mesur effaith, hoffem hefyd argymhell gosod offer cyfrif ar lwybrau a byddai datblygu cynllun dehongli, a ddatblygwyd gydag ymgynghorydd arbenigol, hefyd o fudd (ni chostiwyd yr eitemau hyn).

Yn ystod yr ymweliad â'r safle, crybwyllwyd presenoldeb Canclwm Japan, ac ni chynhwysir costau dileu hwnnw yn y rhestr costau cyfalaf.

Dylid mabwysiadu proses gaffael gynaliadwy ble defnyddir cyflenwyr (contractwyr) lleol.

⁶ Deallwn fod y Pwyllgor Gwirfoddol wedi derbyn cynigion o gymorth gan ecolegwyr a phobl eraill sy'n meddu ar sgiliau arbenigol.

6.0 Darparu

6.1 Y dyfodol

6.1.1 Dadansoddiad ariannol lefel uchel

O ran llywodraethu, gellid casglu o'r ymgynghoriad y teimlwyd y gallai Cyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf fod yn gyfrifol am reoli unrhyw gyllid cyfalaf a refeniw sydd ei angen i gyflawni'r prosiect, yn amodol ar drafodaethau pellach. Byddent hefyd yn gyfrifol am reolaeth gyffredinol y safle.

O ran unrhyw waith rhag-ddatblygu, ceisiadau am gyllid a rheoli prosiectau ar gyfer y cyfnod datblygu, awgrymwn fod cyllid yn cael ei sicrhau i ddarparu 'adnodd dynol ychwanegol' i gefnogi Cyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf.

6.1.2 Cam gweithredol

Byddai angen paratoi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a fyddai'n nodi rolau a chyfrifoldebau clir rhwng Cyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf a'r Pwyllgor Gwirfoddol ('Grŵp neu grwpiau cymunedol') a fyddai'n ymwneud â chynnal a chadw'r goedwig o ddydd i ddydd.

Yn dilyn ymlaen o'r cyfnod cyfalaf, teimlwyd bod cynnwys y gymuned yn hollbwysig o ran cynnal a chadw'r goedwig yn barhaus. Ni wnaed penderfyniad eto ynghylch sut ffurf fyddai hyn yn ei gymryd, ond mae'n debygol y gallai gael ei arwain gan y Pwyllgor Gwirfoddol (Hyrwyddwyr Prosiect), sef y grym y tu ôl i'r prosiect (efallai y bydd lle i gynnwys mwy nag un grŵp cymunedol). Corff anghyfansoddiadol yw'r Pwyllgor Gwirfoddol.

Cydnabyddir y byddai angen sgiliau / gwasanaethau arbenigol hefyd, a fyddai'n cael eu darparu gan gontractwr trydydd parti i gefnogi'r gwirfoddolwyr.

Ar hyn o bryd mae'r sylfaen 'gwirfoddolwyr' yn gyfyngedig a byddai angen denu gwirfoddolwyr newydd i reoli'r goedwig yn barhaus. Cydnabyddir bod nifer o bobl wedi cynnig gwirfoddoli yn ystod cyfnod cynharach o ymgysylltu cymunedol (gan gynnwys pobl â sgiliau arbenigol e.e. ecolegwyr).

Er mwyn helpu i ddenu a datblygu'r gronfa o wirfoddolwyr byddai'n fuddiol recriwtio cydlynedd gwirfoddolwyr rhan-amser ar gontract tymor byr (ni chafodd y swydd hon ei chostio).

Er bod gwirfoddolwyr yn cynnig ymrwymiad hirdymor yn aml, efallai y byddai 'prosiectau neu fentrau' penodol o fewn y goedwig sy'n galw am gymorth ar sail tymor byr. Gallai'r cyfleoedd hyn fod yn fwy deniadol i fyfyrwyr israddedig neu ôl-raddedig ym Mhrifysgol Abertawe gerllaw (neu ysgolion).

Hefyd, fel rhan o ddatblygu'r sylfaen gwirfoddolwyr, dylid rhoi ystyriaeth i'r syniad o amlygu cyfleoedd ar gyfer profiadau 'gwirfoddoli fel teulu', ble gall teuluoedd wirfoddoli gyda'i gilydd.

Yn ogystal, gallai sgiliau gwirfoddolwyr diddordeb arbennig, fel ecolegwyr, roi cyfle i ddatblygu rhaglen wirfoddoli a gysylltir â phobl iau, er mwyn iddynt allu meithrin gwybodaeth a gwerthfawrogiad o ecoleg (a threftadaeth) yr ardal leol drwy wneud gwaith ymarferol ar brosiectau gwirfoddoli.

Deallwn fod gan y Pwyllgor Gwirfoddol fynediad i wirfoddolwyr sy'n meddu ar sgiliau arbenigol e.e. ecolegwyr.

6.1.3 Cyllid cyfalaf

Bydd angen paratoi'r strategaeth ariannu a fydd yn gofyn am ddull cydgysylltiedig o weithio rhwng Cyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf a Chyngor Abertawe gyda meini prawf cymhwyster sy'n cefnogi'n fras strwythurau prosiect a llywodraethu; er enghraifft, y dreftadaeth adeiledig a naturiol, newid hinsawdd, addysg a chymuned. Mae cyllid yn debygol o gael ei sicrhau o gymysgedd o 'ffynonellau', a allai gynnwys Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, y Gronfa Ffyniant Gyffredin a chytundebau A106. Dylid cadw llygad barcud am gronfeydd newydd allai ddod i'r amlwg, ac am feini prawf ariannu a allai newid.

6.2 Dadanosddiad ariannol lefel uchel

Rhagdybiaethau allweddol:

1. Mae costau'n net o TAW
2. Chwyddiant o 3% y flwyddyn
3. Darparwyd rhai o'r costau trwy garedigrwydd contractwr lleol
4. Cynhwysir dyraniad ar gyfer cymorth i'r Pwyllgor Gwirfoddol (hyfforddiant, dillad, manion ac ati)
5. Dylid clustnodi lwfans ar gyfer cymorth ychwanegol sydd ei angen o fewn Cyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf i reoli'r goedwig ar ôl y cyfnod datblygu
6. Byddai yswiriant ar gyfer y goedwig gymunedol a gwirfoddolwyr yn cael ei ychwanegu at bolisi Cyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf am gost bychan iawn.
7. Ni chynhwyswyd unrhyw arian wrth gefn

Cydnabyddir nad oes unrhyw gyfleoedd creu incwm craidd / sicr ac amlygwn isod fodel ariannol lefel uchel pum mlynedd o hyd, sydd, fel yn achos sawl safle hamdden, yn dangos angen am rywfaint o gymorth refeniw parhaus.

Eitemau (amcan-gostau)	BI 1	BI 2	BI3	BI4	BI5
Yswiriant (tybir mai polisi'r Cyngor Cymuned ei hun fyddai hwn)	500	515	530	546	563
Prynu a chynnal a chadw taclau ac offer	250	1,000	1,030	1,061	1,093
Costau gwirfoddolwyr (tybir parhau fel corff anghyfansoddiadol)	2,400	2,472	2,546	2,623	2,701
Cynnal gwefan	150	155	159	164	169
Deunyddiau – bylbiau blynyddol, cerrig mâl ar gyfer llwybrau, trwsio ymylon pren a llogi whilber injan â thraciau (2 ddydd)	1,375	1,416	1,459	1,502	1,548
Contractiwr trydydd parti					
Tocio coed / codi canghennau sy'n gorbwyso / sy'n isel yn achos coed ar hyd y llwybrau (1 achlysur Ionawr – Mawrth)	1,536	1,582	1,630	1,678	1,729
Gosod chwynladdwr / ffwngladdwr annethol o gerrig llwybrau (3 achlysur Mawrth – Tachwedd)	1,080	1,112	1,146	1,180	1,216
Tynnu canghennau / coed a gwypodd (yn ôl y galw – caniatâu 1/2 ddiwrnod y flwyddyn)	210	216	223	229	236
Adnoddau dynol ychwanegol o fewn y Cyngor Cymuned (TBC)					
Amcan-gostau blynyddol	7,501	8,469	8,723	8,984	9,254

Mae'n debygol y bydd rhai o'r costau sy'n ymwneud â chynnal a chadw o bryd i'w gilydd yn cynyddu ar ôl pum mlynedd.

7.0 Sylwadau clo

I grynhoi, mae'r ymchwiliad a'r ymgynghori wedi helpu i nodi cefnogaeth a galw i ddatblygu'r prosiect coedwig gymunedol fel y nodir gan y Pwyllgor Gwirfoddol. Wrth i'r prosiect fynd rhagddo ac aeddfedu, yn amodol ar gyllid pellach, bydd cyfleoedd i 'adnewyddu'r' cynnig drwy gyflwyno 'elfennau newydd' i leoliad y goedwig.

Fel y nodwyd, awgrymwyd dilyn dull partneriaeth ar gyfer cynnal a chadw parhaus y safle ble mae'r Pwyllgor Gwirfoddol (a allai gynnwys mwy nag un grŵp cymunedol) yn gyfrifol am gynnal a chadw'r goedwig o ddydd i ddydd. Byddai Cyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf yn gyfrifol am reolaeth ariannol a rheolaeth gyffredinol y goedwig.

Er i gost refeniw barhaus gael ei hamlygu, mae'n bwysig nodi y bydd y buddsoddiad mewn creu coedwig gymunedol gynaliadwy'n arwain at ddeilliannau clir i'r gymuned, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Lleihau arwahanrwydd cymdeithasol trwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli, a defnydd hamdden anffurfiol a chadwraeth y safle
- Cefnogi iechyd a llesiant corfforol trwy gyfrwng gweithgareddau hamdden ffurfiol ac anffurfiol, o chwarae i gerdded (gofal iechyd ataliol)
- Creu man ble gall bioamrywiaeth ffynnu a, thrwy blannu rhywogaethau o goed brodorol, ble gellir cloi carbon. Bydd y gwaith parhaus o gasglu a monitro data amgylcheddol yn darparu cyfleoedd ar gyfer prosiectau gwyddoniaeth gyda dinasyddion
- Adeiladu gwytnwch cymunedol trwy adfywio coedwig ar gyfer y gymuned ac sy'n cael ei rheoli ganddi (gan gynnwys defnydd gan Sgowtiaid a grwpiau addysg)
- Datgelu treftadaeth gudd y safle trwy ddehongli

Atodiad Un: Rhestr enwau pobl yr ymgynghorwyd â nhw

- John Ashley, Swyddog Datblygu Cerdded, Cyngor Abertawe
- Ceri Davies, Arweinydd Tîm Arbenigol Parciau a Gwasanaethau Technegol, Cyngor Abertawe
- Y Cynghorydd Leanne Davies – Cadeirydd
- Brian Farr, Cydlynnydd Ardal Leol
- Y Cynghorydd Colin Guy
- Steve Hopkins, Tourism and Marketing Manager, Cyngor Abertawe
- Y Cynghorydd Sarah Hughes
- Barbara James, Sgowtiaid
- Peter Kokelaar, Aelod o'r Pwyllgor Prosiect
- Sarah McCoubrey, Rheolwr Iechyd a Llesiant, Cyngor Abertawe
- Y Cynghorydd Melissa Roberts
- Jeremy Parkhouse PSLCC, Clerc Cyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf
- Andrew Price, Dryad Bushcraft
- Jacki Rees Thomas, Swyddog Digonolrwydd Chwarae , Cyngor Abertawe
- Terry Snell, Aelod o'r Pwyllgor Prosiect
- Neil Stokes, Swyddog Rhaglenni Allanol, Cyngor Abertawe
- Mark Thomas, Llywodraethwr Ysgol
- Vicki Thomson, Swyddog Arweiniol Rhaglen Abertawe, Cyngor Abertawe
- Geraldine Williams, Swyddog Datblygu Twristiaeth, Cyngor Abertawe
- Y Cynghorydd Adam Woolliscroft

Atodiad Dau: Enghreifftiau

Isod, amlinellir enghreifftiau o elfennau penodol i'w cynnwys yn y cynnig ar gyfer y goedwig gymunedol law yn llaw ag esiamplau o elfennau eraill a allai gael eu cynnwys yn y cynllun yn ddiweddarach, mewn egwyddor.



Darparu gwybodaeth – map a thestun ger mynediad Parc Gwledig Broadland a Pharc Langley



Chwarae naturiol argraff isel yn RSPB Middleton Lakes



Elfennau chwarae ym Mharc Gwledig Dinton Pastures



Cysgod awyr agored ym Mharc Gwledig Denham a chysgod yn RSPB Middleton Lakes



Rhan o gyfleuster dosbarth awyr agored ym Mharc Gwledig Itchen Valley Country Park



Ymdeimlad o groeso sy'n arwain o'r maes parcio i Gastell Henllys



Pellter hir gyda dehongli hanesyddol – Yr Olygfa – Brwydr Prestonpans 1745



Man golygfa Drumburn yn edrych allan dros Aber Nith



Martin Mere – bywyd gwyllt a welir ar y safle (a ddiweddarir yn rheolaidd)